# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Swyddfa'r Llywydd, 4ydd llawr - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 9 Chwefror 2016

Amser: 08.30 - 09.19

# Preifat

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Y Fonesig Rosemary Butler (Cadeirydd)<br>Paul Davies<br>Jane Hutt<br>Elin Jones<br>Aled Roberts |
| Staff y Pwyllgor: | Aled Elwyn Jones (Clerc) |
| Eraill yn bresennol | David Melding AC, Y Dirprwy Lywydd<br>Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad<br>Craig Stephenson, Cyfarwyddwr Dros Dro Gwasanaethau'r Comisiwn<br>Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Peter Greening, Llywodraeth Cymru<br>Christopher Warner, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth |

## 1 Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau

## 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Nododd y Pwyllgor y cofnodion i'w cyhoeddi.

## 3 Trefn Busnes

### 3.1 Busnes yr Wythnos Hon

Byddai'r Cyfnod Pleidleisio ar ôl yr eitem olaf o fusnes ddydd Mawrth. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y byddai'r Cyfnod Pleidleisio yn cael ei gynnal cyn y Ddadl Fer ddydd Mercher.

### 3.2 Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Trafododd y Rheolwyr Busnes y dewisiadau a gyflwynwyd gan Weinidog Busnes y Llywodraeth ar gyfer trafodion Cyfnod 3 Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) a'r effaith ddilynol ar Fusnes arall y Llywodraeth a amserlennwyd. Cytunodd y Pwyllgor y byddai'r Cyfarfod Llawn yn cychwyn am 1pm ar gyfer pythefnos olaf y tymor (8-16 Mawrth) ac y byddai'r newidiadau'n cael eu hadlewyrchu yn y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes ar ôl hanner tymor.

### 3.3 Amserlen Busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf

Penderfynodd y Pwyllgor Busnes ar drefn busnes y Cynulliad a chytunodd i aildrefnu'r eitemau a ganlyn:

**Dydd Mercher 2 Mawrth 2016 -**

- ~~Amser a neilltuwyd i Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru (60 munud)~~ - *gohiriwyd tan 16 Mawrth 2016*

Cytunodd y Pwyllgor Busnes hefyd i amserlennu'r eitemau canlynol o fusnes:

**Dydd Mercher 2 Mawrth 2016 –**

- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Deisebau ar ei adolygiad o Ddeisebau Cyhoeddus (60 munud)

**Dydd Mercher 9 Mawrth 2016 –**

- Cynnig i gymeradwyo diwygiadau i God Ymddygiad yr Aelodau (10 munud)
- Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)
- Dadl ar Ddiwrnod Rhyngwladol y Menywod (60 munud)
- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd: Dyfodol ynni craffach i Gymru (60 munud)

### 3.4 Papur i'w nodi – Cais gan y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd am ddadl yn y Cyfarfod Llawn.

Nododd y Rheolwyr Busnes lythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd yn gofyn am ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar adroddiad y Pwyllgor – 'Dyfodol ynni craffach i Gymru'?

### 3.5 Papur i'w nodi: Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau – Adolygiad o Ddeisebau

Nododd y Rheolwyr Busnes lythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau yn dilyn cyhoeddi ei adroddiad ar yr adolygiad o drefniadau deisebau cyhoeddus y Cynulliad a chytunwyd y dylai'r Clerc dynnu sylw ato yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Busnes. Dywedodd y Llywydd y byddai'n ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau gyda'i harsylwadau ei hun.

## 4 Deddfwriaeth

### 4.1 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Bill Mewnfudo

Trafododd y Pwyllgor Busnes bapur gan y llywodraeth ynghylch Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â'r Bil Mewnfudo.

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i gyfeirio'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol i'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol er mwyn iddo graffu arno. Cytunodd y Pwyllgor Busnes hefyd y dylai'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol erbyn dydd Iau 10 Mawrth 2016 er mwyn i'r Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol gael ei drafod yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mawrth 15 Mawrth 2016.

### 4.2 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (rhif 3): Bil Menter

Trafododd y Pwyllgor Busnes bapur gan y llywodraeth ynghylch trydydd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol mewn perthynas â'r Bil Menter.

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i gyfeirio'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol i'r Pwyllgor Menter a Busnes er mwyn iddo graffu arno. Cytunodd y Pwyllgor Busnes hefyd y dylai'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol erbyn dydd Iau 10 Mawrth 2016 er mwyn i'r Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol gael ei drafod yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mawrth 15 Mawrth 2016.

### 4.3 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (rhif 4): Bil Menter

Trafododd y Pwyllgor Busnes bapur gan y llywodraeth ynghylch pedwerydd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol mewn perthynas â'r Bil Menter.

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i gyfeirio'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol at y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol er mwyn iddo graffu arno. Cytunodd y Pwyllgor Busnes hefyd y dylai'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol erbyn dydd Iau 10 Mawrth 2016 er mwyn i'r Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol gael ei drafod yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mawrth 15 Mawrth 2016.

### 4.4 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol: Bil Tai a Chynllunio - Cais am estyniad i ystyried Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i gais gan y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd i ymestyn y dyddiad cau ar gyfer ystyried y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (rhif 2) ar y Bil Tai a Chynllunio gan wythnos, o 25 Chwefror i 3 Mawrth.

### 4.5 Papur i'w nodi: Tynnu Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn ôl - Bil Mynediad at Driniaethau Meddygol (Arloesi)

Nododd y Rheolwyr Busnes lythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn tynnu'n ôl yn ffurfiol y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â'r Bil Mynediad at Driniaethau Meddygol (Arloesi) yn dilyn cael gwared ar y cymalau perthnasol yn y Bil oedd yn ei gwneud yn ofynnol cael y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol.

## 5 Y Pwyllgor Busnes

### 5.1 Adroddiad Etifeddiaeth Diwygiedig y Pwyllgor Busnes

Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad etifeddiaeth diwygiedig yn dilyn sylwadau gan y Rheolwyr Busnes yn y cyfarfod blaenorol a chytunwyd mewn egwyddor ar yr adroddiad diwygiedig ac eithrio paragraffau 73 a 74. Cytunodd y Rheolwyr Busnes i ystyried y newidiadau i baragraffau 73 a 74 gyda'r Clerc drwy e-bost.

## 6 Pwyllgorau

### 6.1 Gweithdrefnau ar gyfer ethol Cadeiryddion pwyllgorau

Trafododd y Rheolwyr Busnes bapur ar newidiadau arfaethedig i weithdrefn y Cynulliad ar gyfer ethol Cadeiryddion Pwyllgorau. Trwy gyfrwng pleidleisio wedi'i phwysoli, cytunodd Plaid Cymru, y Ceidwadwyr Cymreig a Democratiaid Rhyddfrydol Cymru mewn egwyddor i system newydd o ethol Cadeiryddion Pwyllgorau, tra pleidleisiodd

Gweinidog Busnes y Llywodraeth yn erbyn unrhyw newidiadau. Nid oedd felly mwyafrif o blaid newid trefn.

## 7 Rheolau Sefydlog

### 7.1 Cynigion i ddiwygio Rheol Sefydlog 26 mewn perthynas â'r broses ddeddfwriaethol

Trafododd y Rheolwyr Busnes bapur gyda newidiadau arfaethedig i Reol Sefydlog 26. Awgrymodd y Gweinidog y dylid drafftio newidiadau i rai o'r cynigion yn y papur a nododd nad oedd yn cytuno mewn egwyddor i gynigion eraill, yn enwedig y rhai ynghylch y Cyfnod Adrodd. Cytunodd y Gweinidog i anfon nodyn at Reolwyr Busnes yn amlinellu ei newidiadau a awgrymwyd. Cytunodd y Rheolwyr Busnes i ddychwelyd at y mater yn y cyfarfod ar 23 Chwefror.